# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1845(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar ran y Prif Weinidog, ar 26 Medi 2006

**At Alun Ffred Jones:**

Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn imi ddarparu gwybodaeth ychwanegol ichi mewn ymateb i'ch cwestiwn am gyflwyno gwres canolog olew i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref.

Bydd Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006 yn cael ei ystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 4 Hydref. Os y'i cymeradwyir, bydd y dyfarniad yn dod i rym ar 5 Hydref 2006 ac ymhlith pethau eraill, bydd yn dwyn gwres canolog olew i'r cynllun. Unwaith mae'r dyfarniad yn weithredol, bydd Eaga Partnership yn gallu prosesu ceisiadau cartrefi cymwys yn syth. Fodd bynnag, gan fod gan Eaga restr aros ar gyfer y mesur hwn, mae'n debygol y bydd ceisiadau yn cymryd ychydig amser i gyrraedd y cyfnod o osod.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1820(FM) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ran y Prif Weinidog, ar 26 Medi 2006

**At Kirsty Williams:**

I ateb eich cwestiwn ynglŷn â swyddi bydwreigiaeth gwag yng Nghymru, yr wyf bellach mewn sefyllfa i ymateb.

Mae comisiynu lleoedd hyfforddi yn seiliedig ar anghenion a nodir mewn cynlluniau gweithlu a gwblhawyd gan ymddiriedolaethau NHS. Mae nifer y bydwragedd dan hyfforddiant wedi cynyddu o 137 yn 2004, i 186 yn 2005, yn bennaf yn sgil cyhoeddi'r cwrs bydwreigiaeth 3-blynedd ym Mhrifysgol Morgannwg a Phrifysgol Caerdydd. Cyn hynny, dim ond ym Mhrifysgol Abertawe a geid y cwrs hwn. Yn 2005-06, dechreuodd Prifysgol Bangor gwrs 3-blynedd, sydd bellach yn darparu bod y cwrs hwn ar gael ledled Cymru.

Caf ar ddeall nad oes unrhyw broblemau o safbwynt recriwtio bydwragedd a bod pob swydd wag yng Nghymru wedi'i llenwi.